Rheoli Arloesedd a Thechnoleg TB801

*Patrwm cyflwyno* *O fis Mai i fis Hydref*

*O fis Tachwedd i fis Ebrill*

*Disgrifiad o'r modiwl*

Mae hanes arloesedd technolegol wedi bod yn syfrdanol, gan effeithio ar ein bywydau, effeithiolrwydd sefydliadau, proffidioldeb diwydiannau, llesiant cymdeithasau, cynaliadwyedd yr amgylchedd, a ffyniant cenhedloedd. Felly, mae deall y prosesau sy'n sail i arloesedd yn hanfodol, p'un a ydych yn defnyddio neu'n creu arloesedd technolegol. Os ydych yn rhan o'r gwaith o reoli prosesau arloesedd, mae deall proses gyffredinol arloesedd a'r amrywiadau yn gymhwysedd proffesiynol craidd. Mae'r modiwl ar-lein hwn yn archwilio arloesedd o safbwynt rheoli ac, felly, mae'n eich galluogi i ddatblygu eich cyfraniad at arloesedd technolegol a'r broses o'i reoli.

Mae'r modiwl yn cyflwyno dulliau damcaniaethol, methodolegau, arferion ac adnoddau sy'n berthnasol i brosesau rheoli technoleg ac arloesedd technolegol mewn sefydliadau. Ei nod yw datblygu eich dealltwriaeth o arloesedd technolegol a'r broses o'i reoli. Mae hyn yn cynnwys archwilio rôl pobl, ffactorau technolegol, sefydliadol a chyd-destunol sy'n llywio arloesedd technolegol, a'r gwerth ychwanegol. Mae'r modiwl yn rhoi golwg gyfoes ar arloesedd technolegol yn yr unfed ganrif ar hugain drwy astudiaethau achos ac enghreifftiau. Mae'n berthnasol i weithwyr proffesiynol sydd â diddordeb mewn rheoli arloesedd technolegol mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys y sector preifat, y sector cyhoeddus a thrydydd sectorau diwydiant nid er elw.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â manyleb gyffredinol y person ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd ôl-raddedig neu gymhwyster cyfatebol mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig â rheoli arloesedd a thechnoleg. Mae graddau priodol yn cynnwys, ymhlith rhai eraill, Rheoli Technoleg, Cyfrifiaduro, Meddwl Drwy Systemau ar Waith, Rheoli'r Amgylchedd, Gradd Meistr mewn Gweinyddu Busnes (MBA), Peirianneg, Gwyddoniaeth y Gofod. Bydd eich gradd wedi cynnwys gwaith ymchwil ac archwilio mewn perthynas ag arloesedd technolegol o ryw fath
- profiad uniongyrchol o reoli arloesedd technolegol (mewn unrhyw gyd-destun sefydliadol)
- ymwybyddiaeth gritigol o dechnoleg ac arloesedd technolegol mewn unrhyw gyd-destunau sefydliadol, adrannol a rhanbarthol, ynghyd â'r costau a'r buddiannau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â nhw
- y gallu i diwtora myfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd ar lefel meistr
- y gallu i weithio i derfynau amser byr a/neu ymateb yn brydlon wrth gynnig cyngor, adborth a chymorth i fyfyrwyr.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- cymhwyster addysgu ar lefel addysg uwch, e.e. TAR (Addysg Uwch) neu FHEA
- profiad blaenorol fel tiwtor neu ddarlithydd effeithiol mewn addysg ar-lein ac o bell
- profiad o weithio gyda wikis ac adnoddau ar-lein eraill (fel cynadleddau ar-lein) wrth gydweithio a/neu weithio fel tîm a chyfathrebu.

| | |
|---|---|
| Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus: | 30 |
| Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr: | 3 |
| Dull cyflwyno aseiniadau: | 2 |
| Lefel y gofynion TGCh: | 3 |
| Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol: | 20 |
| Band cyflog: | 5 |
| Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu: | 3 |